STEM 8: ACHUB AC AILSEFYDLU
ESTYNIAD

PROSTHETEG
PROSIECT YMCHWIL

RAF 100
raf100schools.org.uk

Ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi'u hanafu, mae prostheteg yn cael ei defnyddio yn lle breichiau neu goesau, neu ddarnau llai o'r corff, fel llaw neu droed. Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn gwneud eich ymchwil eich hun i'r hun sy'n gwneud prosthesis da.

DOUGLAS BADER

Un o'r aelodau enwocaf o'r RAF i gael prosthesis oedd Douglas Bader. Ymchwiliwch i'w fywyd i ddysgu mwy am yr hyn a gyflawnodd.

BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD

Dylunio a chreu model o'ch prosthesis

Pethau i feddwl amdanynt:

- Pa symudiad ddylai prosthesis ei gael?
- A ddylai efelychu mor gywir â phosib symudiad braich neu goes naturiol, neu a yw'n well canolbwyntio ar ambell swyddogaeth bwysig benodol?
- Sut gallwch chi osod braich neu goes brosthetig fel ei bod yn gyfforddus?
- Pa fecanweithiau ellir eu defnyddio i greu symudiad?
- Pa rymoedd sy'n gweithio ar y prosthesis ac ar y person a beth yw effaith y grymoedd hyn?



Awgrymwch ddeunydd ar gyfer eich prosthesis

Pethau i feddwl amdanynt:

- Pa nodweddion deunydd sy'n bwysig wrth ddylunio braich neu goes brosthetig?
- Pa ddeunyddiau allech chi ymchwilio iddynt?

Termau defnyddiol ar gyfer disgrifio deunyddiau:

- Dwysedd
- Cryfder
- Ystwythder

IECHYD A DIOGELWCH

OS YDYCH CHI'N CYNNAL YMCHWILIAD YMARFEROL, MAE ANGEN I CHI FEDDWL AM Y GWEITHDREFNAU, YR OFFER A'R SYLWEDDAU RYDYCH CHI'N EU DEFNYDDIO. OES UNRHYW UN OHONYNT YN CYFLWYNO UNRHYW RISGIAU? BETH ALLAI FYND O'I LE A PHA MOR DDIFRIFOL FYDD HYNNY? MEDDYLIWCH PA GAMAU FYDD RHAID I CHI EU CYMRYD I LEIHAU UNRHYW RISGIAU.